# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 25/06/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30/06/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.** | 07/07/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**PWNC – Rhoi'r rhaglen 'Cysylltu â Gwaith' ar waith yng Ngwynedd.**

**PENDERFYNIAD –**

1. Cymeradwyo'r bwriad i weithredu'r rhaglen Cysylltu â Gwaith yng Ngwynedd.

2. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, i dderbyn £1,856,000 i weithredu'r rhaglen Cysylltu â Gwaith drwy gytundebu â Chyngor Sir Ddinbych (corff arweiniol Gogledd Cymru).

3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i roi'r rhaglen Cysylltu â Gwaith ar waith yng Ngwynedd a'i reoli.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd.
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Kelvin Roberts,<br>Rheolwr Rhaglen Cyflogadwyedd,<br>Gwasanaeth Datblygu'r Economi |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 25 Mehefin 2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc:**

<u>Rhoi'r rhaglen 'Cysylltu â Gwaith' ar waith yng Ngwynedd.</u>

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Cymeradwyo'r bwriad i weithredu'r rhaglen Cysylltu â Gwaith yng Ngwynedd.

2. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, i dderbyn £1,856,000 i weithredu'r rhaglen Cysylltu â Gwaith drwy gytundebu â Chyngor Sir Ddinbych (corff arweiniol Gogledd Cymru).

3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i roi'r rhaglen Cysylltu â Gwaith ar waith yng Ngwynedd a'i reoli.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Mae Cysylltu â Gwaith (Connect to Work) yn rhaglen gan Lywodraeth y DG i helpu pobl anabl, y rhai â chyflyrau iechyd a phobl sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, i ddod o hyd i waith cynaliadwy.

Yng Nghymru mae'r rhaglen am gael ei weithredu drwy law awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.  Cyngor Sir Dinbych fydd Awdurdod Lleol arweiniol Cysylltu â Gwaith yn y gogledd.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli a gwireddu'r rhaglen yng Ngogledd Cymru bellach wedi eu datblygu ac wedi derbyn sêl bendith Llywodraeth y DG.

Mae gofyn arwyddo cytundeb rhwng siroedd y gogledd a Chyngor Sir Dinbych i gadarnhau'r trefniadau rheolaethol a rhannu'r cyfrifoldebau yn briodol er mwyn derbyn yr arian. Mae hefyd gofyn i gadarnhau fod y Cyngor Gwynedd yn fodlon rhoi'r rhaglen ar waith yn y sir.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae'r Cysylltu â Gwaith wedi ei sefydlu o dan adain strategaeth '[Cael Prydain i Weithio]' Llywodraeth y DG.

Bwriad [Cysylltu â Gwaith] yw mynd i'r afael â 'diweithdra cudd' drwy helpu pobl sydd gydag anghenion cymhleth i ddod o hyd i waith cynaliadwy. Mae'n rhaglen wirfoddol fydd yn cysylltu cymorth gwaith, iechyd a sgiliau.

Hanfod y rhaglen yw darparu cefnogaeth ddwys i gael unigolion i waith yn sydyn ac yna parhau i'w cefnogi am gyfnod wedi iddynt gael swydd.

Yng Nghymru mae'r rhaglen yn cael ei weithredu drwy law awdurdodau lleol ar sail ranbarthol. Mae'r rhaglen dan reolaeth Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth y DG gan weithio ochr yn ochr â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y maes, megis Cymunedau i Waith a Mwy. Mae bwriad i gyllid Gysylltu â Gwaith drosglwyddo i reolaeth Llywodraeth Cymru gydag amser.

Bydd Cysylltu â Gwaith yn parhau tan ddiwedd 2029/30 gyda gweithgaredd ar ei anterth yn 2026/27 ac 2027/28.

Cyllideb y gogledd ar gyfer Cysylltu â Gwaith yw £13.38 miliwn gyda disgwyl y bydd 3,600 o unigolion yn derbyn cefnogaeth. <u>£1.85 miliwm yw'r dyraniad i Wynedd gyda tharged o 550 o fuddiolwyr</u>.

Yn yr un modd â rhaglenni eraill o Lywodraeth y DG (e.e. y Gronfa Ffyniant Gyffredin / SPF) mae gofyn i un awdurdod lleol weithredu fel corff atebol i'r arian ar gyfer y rhanbarth. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i ymgymryd â'r rôl yma.

Mae cytundeb wedi ei baratoi rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r siroedd eraill i rannu'r arian a'r cyfrifoldebau a ddaw yn ei sgil.

Bydd tîm Gwaith Gwynedd, Adran Economi a Chymuned y Cyngor yn arwain Cysylltu â Gwaith yn y sir ac yn sicrhau fod trigolion ledled Gwynedd yn cael pob cyfle o'r rhaglen.

Mae Gwaith Gwynedd eisoes yn darparu detholiad o gymorth i helpu pobl leol dychwelyd i waith neu sicrhau gwell swydd Maent am allu sicrhau felly fod Cysylltu â Gwaith yn llenwi bylchau heb darfu ar y ddarpariaeth bresennol.

Bydd y Cysylltu â Gwaith yn llenwi bwlch drwy ganolbwyntio ar unigolion sydd lleiaf tebygol o lwyddo drwy law'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan fanteisio ar allu

Cysylltu â Gwaith i barhau i roi help am gyfnod ar ôl i unigolyn dechrau gwaith. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd fod buddiolwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn parhau yn y swyddi maent yn eu sicrhau.

Bydd Cysylltu â Gwaith felly yn cryfhau cynnig cyflogadwyedd presennol yn y sir.

Gwaith Gwynedd fydd yn darparu'r gefnogaeth yn uniongyrchol, drwy law swyddogion yn gyflogedig gan y Cyngor rhan amlaf, ond yn cydweithio gyda siroedd eraill mewn rhai achosion i sicrhau'r help cywir i unigolion gydag anghenion arbenigol.

Yn Hydref 2025, roedd 6,642 yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Ngwynedd nad oedd yn orfodol iddynt chwilio am waith. Bydd cyfran o'r unigolion yma yn dymuno swydd ac o blith y garfan yma bydd y mwyafrif o fuddiolwyr Cysylltu â Gwaith yn dod; allwn fod yn hyderus felly y bydd gofyn digonol ar gyfer y cymorth ar gael o'r rhaglen.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

"Rwyf yn fodlon fod trefniadau llywodraethu a gweithredu cadarn mewn lle er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor, ynghyd â profiad rheoli cynlluniau o'r fath. Bydd swyddogion Cyllid yn cyd-weithio'n agos gyda'r swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned gan sicrhau gweithrediad y cynlluniau o fewn y dyraniad. Rwyf felly yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir."

Swyddog Monitro:

Mae'r penderfyniad a geisir ynglŷn a gweinyddu rhaglen sydd yn cael ei arwain gan Lywodraeth y DU drwy gynghorau Gogledd Cymru . Cynigir trefn briodol ar gyfer gweinyddu Cysylltu a Gwaith yng Ngwynedd drwy'r penderfyniad a geisir.

Aelod/au Lleol:

*Dim yn berthnasol*